COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD LLUN, 30 MEHEFIN 2025 10:00

Presennol

Y Cynghorydd A Ulberini-Williams – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Clarke | HJ David | GH Haines |

Presennol – O Bell

| | | | |
|---|---|---|---|
| F D Bletsoe | H Griffiths | S J Griffiths | M L Hughes |
| J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | T Thomas | AJ Williams |
| MJ Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorydd Eugene Caparros - Aelod Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd)

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd John Spanswick | Yr Arweinydd |
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod Cabinet dros Wasanaethau |
| Y Cynghorydd Hywel Williams | Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad |
| Y Cynghorydd Martyn Jones | Aelod o'r Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid |
| Y Cynghorydd Paul Davies | Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Amgylchedd |
| Y Cynghorydd Neelo Farr | Aelod o'r Cabinet dros Adfywiad, Datblygu Economaidd a Thai |
| Y Cynghorydd Melanie Evans | Aelod o'r Cabinet dros Adnoddau (Rhannu Swydd) |
| | |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Y Cymunedau |
| Kelly Watson | Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd AJ Williams – Eitem 5 – Personol – Cadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Coety

## 155. Cymeradwyo'r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol dyddiedig 17 Mawrth 2025 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Mehefin 2025 |

## 156. Alldro Cyllideb Refeniw 2024-25

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gydag aelodau'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a'r ceisiadau am wybodaeth ychwanegol:<br><br>**Argymhellion:**<br><br>1. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y diffyg ar gyfer cyflogau a phensiynau athrawon gan y Grant Cefnogi Refeniw ac effaith setliadau a chyllid grant hwyr ac **argymhellodd** fod angen cryfhau'r sgyrsiau ar lefel wleidyddol i gefnogi dyraniad ychwanegol a setliadau aml-flwyddyn. |

<table>
<tr><td></td><td>
2. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynglŷn â chostau difrod stormydd o ganlyniad i Storm Bert a Storm Darragh ac argymhellodd ystyried sefydlu cronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi / cronfa bwrpasol i'w defnyddio pe bai argyfwng yn digwydd o ganlyniad i dywydd garw.<br><br>
Gwybodaeth Ychwanegol y Gofynnwyd Amdani:<br><br>
3. Gofynnodd y Pwyllgor am gopïau o'r wybodaeth ynglŷn â'r gwaith a wnaed ynghylch agenda Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (SEND) yn Lloegr ac adroddiad 2014 Estyn y cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ato.<br><br>
4. Bu'r Pwyllgor yn trafod effaith diswyddiadau mewn ysgolion a gofynnodd am nifer y rhai roddodd eu gwaith i fyny'n wirfoddol yn y cyfnod yr adroddwyd amdano.<br><br>
5. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ynghylch y swm o arian i gyllido addysg mewn ysbyty y cyfeiriwyd ato yng Nghynnig Gostwng y Gyllideb EDFS15.<br><br>
6. Gofynnodd y Pwyllgor am i wybodaeth gael ei darparu ar gyfer yr holl Aelodau yn manylu ar y ddarpariaeth arbenigol mewn ysbyty ar gyfer y dysgwyr y cyfeiriwyd atynt ym mhwynt 5 uchod.<br><br>
7. Gofynnodd y Pwyllgor am bapur gwybodaeth yn amlinellu cronfeydd wrth gefn pwrpasol y Cyngor, eu diben a'u sefyllfa gyfredol fel ar 31 Mawrth 2025.<br><br>
8. Bu'r Pwyllgor yn trafod effaith cyllid grant hwyr ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor a gofynnodd am eglurder p'un a oedd ail alinio'r cyllidebau sylfaenol wedi bod yn ddigon i gwrdd â'r pwysau o 2024-25. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am wybodaeth ynglŷn â pha grantiau oedd yn rhai unwaith a pha rai oedd yn grantiaui parhaus.<br><br>
9. Bu'r Pwyllgor yn trafod y diffyg yn erbyn Marchnad Pen-y-bont ar Ogwr oherwydd darganfod RAAC (Concrit Aeredig wedi'i Awtoclafio wedi'i Atgyfnerthu) a chau y farchnad wedyn a cholli incwm rhent a gofynnodd am i wybodaeth gyfrinachol gael ei rhoi i'r Aelodau ynghylch cynlluniau'r Cyngor yn y dyfodol ar gyfer y Farchnad.
</td></tr>
<tr><td>Dyddiad Gwneud y Penderfyniad</td><td>30 Mehefin 2025</td></tr>
</table>

## 157. Gweithgor Cyllideb Craffu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyried yr adroddiad a'i drafod yn fanwl gyda Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a'r ceisiadau i Swyddogion:<br><br>10. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid symud y Grŵp Llywio cyntaf, a nodwyd yng Ngham 2 o Atodiad B i'r adroddiad, i fis Gorffennaf ond y dylai gweddill y strwythur arfaethedig gael ei ystyried gan y Pwyllgor yng nghyfarfod mis Gorffennaf ar ôl i Arweinwyr y Grwpiau gyflwyno'r adroddiad i'w Grwpiau i'w drafod.<br><br>11. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylai'r Grŵp Ymchwil Ddofn ar gyfer Cyfarwyddiaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant archwilio'r cyfraniadau ariannol gan y Bwrdd Iechyd fel maes posibl i wrthbwyso rhai o'r costau<br><br>12. Tynnodd y Pwyllgor sylw at bwysigrwydd cadw gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol gan gydnabod eu heffaith mewn canlyniadau gwell i bobl a'u pwysigrwydd i sefydlogrwydd ariannol hirdymor ac **argymhellodd** y dylai Grwpiau Ymchwil Ddofn y Gyllideb Graffu barhau i fod yn ymwybodol o hynny.<br><br>13. **Gofynnodd** y Pwyllgor i'r Cyfarwyddwyr ddod â'r holl ddewisiadau cyllideb sy'n cael eu harchwilio i'r Grwpiau Ymchwil Ddofn |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Mehefin 2025 |

## 158. Adroddiad Enwebu Hyrwyddwr Rhianta Corfforaethol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Enwebu'r Cynghorydd Tim Thomas i gynrychioli'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol fel un wedi ei |

| | |
|---|---|
| | wahodd i gyfarfodydd Pwyllgor Rhianta Corfforaethol y Cabinet. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Mehefin 2025 |

## 159. Enwebiadau Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn enwebu'r Aelodau canlynol i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg:<br><br>• Y Cynghorwyr Huw David, Simon Griffiths a Gary Haines (enwebiadau'r grŵp Llafur);<br>• Y Cynghorydd Tim Thomas (enwebiad gan Grŵp Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr);<br>• Y Cynghorydd Ross Penhale-Thomas (enwebiad gan Grŵp y Gynghrair Ddemocrataidd); a<br>• Y Cynghorydd Freya Bletsoe (Aelod a enwebwyd o Grŵp Annibynnol Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn bresennol yn y cydbwyllgor pan na fyddai yr un o'r pump Aelod arall ar gael). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Mehefin 2025 |

## 160. Diweddariad y Flaenraglen Waith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ddrafft yn Atodiad A yn amodol ar y gwelliannau canlynol. Nododd y Daflen Gweithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i Argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad B a nododd yr adroddid am Flaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu eraill yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br><br>1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ychwanegu adroddiad at ei Flaenraglen Waith ynghylch ymateb y Cyngor cyfan i'r newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd ac i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth am |

| | |
|---|---|
| | sut mae'r Cyngor yn rheoli cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymatebion i argyfyngau, e.e. yr effaith ar gyllideb y Priffyrdd oherwydd difrod stormydd diweddar.<br><br>2. Cyfeiriodd yr aelodau at yr adolygiad annibynnol a gomisiynwyd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a arweiniodd at drosglwyddo'r swyddogaeth ymyrraeth gynnar ac atal o'r Gyfarwyddiaeth Addysg i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a **gofynnwyd** am adroddiad yn adolygu'r newid yn y strwythur, gan dynnu sylw at bwysigrwydd symud tuag at fwy o ymyrraeth gynnar ac atal.<br><br>3. Cytunodd y Pwyllgor i newid pwrpas cyfarfod 11 Medi fel cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant i ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac adroddiad Cwynion a Sylwadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>4. Cytunodd y Pwyllgor i aildrefnu'r Strategaeth Ddigidol i'w gyfarfod ym mis Gorffennaf a bod adroddiad Gweithgor Cyllideb Craffu hefyd yn cael ei aildrefnu ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Cytunodd y Pwyllgor y dylid aildrefnu'r Adroddiad Blynyddol Craffu i'w gyfarfod ym mis Hydref. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Mehefin 2025 |

## 161. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 30 Mehefin 2025 |

Er mwyn gwylio trafodaeth bellach a gynhaliwyd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon, os gwelwch yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:18.